Annwyl iaw,
Sophia ydw i. Dw i'n ddeuddeg oed. Dw i'n mynd i Ysgol Aberdaugleddau. Dw i'n mwynhau Hanes, ond dw i ddim yn hoffi Mathemateg. Mae un chwaer gyda fi. Dw i'n mwynhau nofio gyda fy ffrindiau. Mae fy mhen-blwydd ym mis Hydref. Dw i'n byw yn Aberdaugleddau ond hoffwn i fyw yn America, achos mae'n fendigedig. Fy hoff liw ydy porffor, ond fy nghas liw ydy llwyd, achos mae'n ddiflas. Es i i Ysgol Gynradd St Francis. Dw i'n mwynhau dawnsio a siopa. Fy ffrindiau gorau ydy Hannah, Leanne a Sally.
Cofion cynnes,
Sophia

Annwyl iaw,
Daniel ydw i. Dw i'n un deg tri oed. Dw i'n mynd i Ysgol Aberdaugleddau. Dw i'n mwynhau Mathemateg, ond dw i ddim yn hoffi Saesneg. Mae ci gyda fi o'r enw Zippy. Fy ffrind gorau ydy Joel. Dw i'n hoffi nofio gyda Joel. Mae gwallt du gyda fi a llygaid brown. Mae un brawd gyda fi o'r enw Alexander, mae e'n wyth oed. Mae un chwaer gyda fi o'r enw Anya. Mae hi'n bymtheg oed. Dw i wrth fy modd yn chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau. Fy hoff dîm ydy Arsenal, maen nhw'n ffantastig.
Cofion cynnes,
Daniel

Annwyl iaw,
Holly ydw i. Dw i'n un deg dau oed. Dw i'n mynd i Ysgol Aberdaugleddau a dw i'n hoffi Gwyddoniaeth. Ond dw i ddim yn hoffi Chwaraeon. Fy ffrindiau gorau ydy Chloe, Nivana a Jordan. Dw i'n hoffi nofio gyda fy ffrindiau. Fy hoff actor ydy Mel Gibson a fy hoff ffilm ydy *Braveheart*. Mae gwallt golau ac mae llygaid glas gyda fi. Yn fy marn i dw i'n berson doniol.
Cofion cynnes,
Holly

Dysgu!
bendigedig: wonderful
diflas: boring
doniol: funny
mwynhau: to enjoy
wrth fy modd: to really like